

## **Cais am Hysbysiad Ymlaen Llaw am Waith Dymchwel Arfaethedig**

*Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 Atodlen 2, Rhan 31*

Dylai'r ffurflen Cais am Hysbysiad Ymlaen Llaw am Waith Dymchwel Arfaethedig gael ei defnyddio ar gyfer cynigion i ddymchwel adeilad neu strwythur.

Yn gyffredinol, nid ystyrir bod dymchwel adeilad yn 'waith datblygu' ac felly nid oes angen cael caniatâd cynllunio fel arfer. Fodd bynnag, bydd angen i'r awdurdod cynllunio lleol gymeradwyo'r gwaith o ddymchwel adeiladau penodol ymlaen llaw.

Nid yw'r rheolaethau cynllunio sy'n ymwneud â gwaith dymchwel yn gymwys i ddymchwel adeiladau amrywiol - gan gynnwys adeiladau rhestredig, adeiladau mewn ardaloedd cadwraeth, sydd â chapasiti o lai na 50 metr ciwbig, ffensys neu gaeadleoedd y tu hwnt i ardaloedd cadwraeth ac unrhyw adeilad arall heblaw am dŷ annedd neu un sydd drws nesaf i dŷ annedd.

Er mai 'datblygiad a ganiateir' yw gwaith o'r fath, cyn y gallwch fynd ati i ddymchwel rhaid i chi wneud cais i'r awdurdod cynllunio am benderfyniad ynghylch p'un a fydd angen cael cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer y dull dymchwel ac unrhyw waith adfer arfaethedig ar y safle.

Diben y rheolaeth hon yw rhoi'r cyfle i awdurdodau cynllunio lleol reoleiddio manylion y gwaith dymchwel er mwyn lleihau effaith y gweithgaredd hwnnw ar amwynder lleol i'r eithaf.

Nid yw'r ffurflen yn gymwys lle gwneir gwaith dymchwel o dan yr amodau canlynol:

- ar dir sy'n destun caniatâd cynllunio ar gyfer ei ailddatblygu, a roddwyd ar gais, neu y tybiwyd ei fod wedi'i roi, o dan Ran III o'r Ddeddf
- lle mae'n ofynnol ei wneud neu lle y caniateir ei wneud gan unrhyw ddeddfiad neu o dan unrhyw ddeddfiad
- lle mae'n ofynnol ei wneud o dan rwymedigaeth berthnasol

Yn aml, mae'n ddefnyddiol trafod eich cynnig gyda'ch awdurdod lleol cyn i chi gyflwyno eich cais - cyngor cyn gwneud cais y'i gelwir. Fel arfer, bydd gan eich awdurdod lleol fanylion ynghylch sut i wneud hyn ar ei wefan.

[Gellir cael rhagor o wybodaeth am ddymchwel adeiladau yng Nghylchlythyr 31/95: Rheolaeth gynllunio ar ddymchwel.](#)